

SL(6)504 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) 2024

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) Rheoliadau (Cymru) 2004 (**y prif Reoliadau**) yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyffuriau, y meddyginiaethau neu'r sylweddau eraill y gellir eu harchebu i gleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau fel a ganlyn:

- gosod cyfyngiadau ar ragnodi analogau hormon sy'n rhyddhau gonadotroffin (GnRH) gan ymarferwyr cyffredinol y GIG yng Nghymru pan gânt eu defnyddio i atal y glasoed fel rhan o drin anghyfathiant rhywedd neu ddysfforia rhywedd ymhlith plant a phobl ifanc o dan 18 oed.
- dileu'r cyfyngiad presennol ar ragnodi tabledi fitamin B12 (cyanocobalamin) gan ymarferwyr cyffredinol.

Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 3 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 2(2)(a) i (c) yn mewnosod testun yn y tabl yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau, gan wneud hynny drwy fewnosod testun "yn y man priodol".

Yn yr achos hwn, rydym o'r farn y dylai'r drafftio fod wedi nodi'n union ble y dylid gosod y testun newydd ym mhob un o'r colofnau yn Atodlen 2. Rydym yn nodi, [pan ddiwygiwyd y tabl](#)



[gan Weinidogion Cymru yn 2005](#), mabwysiadwyd dull mwy manwl gywir nad oedd yn gadael lle i ddryswch o ran ble y dylid gosod y testun. Rydym o'r farn y dylai'r dull hwnnw fod wedi'i ddefnyddio yn y Rheoliadau hyn.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 2(3) yn diffinio "general medical practitioner" fel ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol a gedwir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan adran 2 o Ddeddf Meddygol 1983.

Fodd bynnag, mae'r gofyniad i gadw'r "General Practitioner Register" wedi'i nodi yn adran 34C o Ddeddf Meddygol 1983, nid adran 2. Mae adran 2 yn darparu ar gyfer cofrestr wahanol, sef "the register of medical practitioners".

Felly, mae'r diffiniad o "general medical practitioner" yn y Rheoliadau yn aneglur.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 2(4), mae nifer o wallau yn y disgrifiad o'r testun presennol a nodwyd i'w ddiwygio ac yn y testun newydd a fydd yn disodli'r testun hwnnw—

- (a) yn y disgrifiad o'r testun a nodir i'w ddiwygio yn y diffiniad o "patient", mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, nodir teitl yr offeryn fel "National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) Regulations 2004" ond yn y testun Cymraeg fe'i nodir fel "National Health Services (General Medical Services Contracts) (Wales) Regulations 2004". Mae'r testun Cymraeg yn gywir gan ei fod yn dyfynnu'r testun presennol gan gynnwys y gwall yn nheitl yr offeryn a fewnosodwyd gan welliant blaenorol.
- (b) yn y testun newydd a fydd yn disodli'r testun presennol, mae teitl yr offeryn yn anghywir—
 - (i) yn nhestun y ddwy iaith, mae rhan o deitl yr offeryn yn anghywir gan fod y ddau yn nodi "National Health Services ..." ond teitl cywir yr offeryn yw "National Health Service...";
 - (ii) mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn nheitl yr offeryn a fydd yn disodli'r cyfeiriad presennol. Yn y testun Saesneg, nodir rhan o'r teitl yn anghywir fel "(General Medical Service Contracts)" ond yn y testun Cymraeg fe'i nodir yn gywir fel "(General Medical Services Contracts)".

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r ail bwynt adrodd.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—
Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee